

Y CRIW Mentrus

Cystadleuaeth Ysgolion Cynradd



Cynradd Is

Gweithgaredd 6: Beth fyddwn yn ein galw ein hunain?

Amcan dysgu

- Annog gwneud penderfyniadau a gweithio gydag eraill.

Nodweddion Entrepreneuriaeth

Creadigedd

- Meddwl Dargyfeiriol
– creu syniadau
- Arloesi

Cysylltiadau

- Cyfathrebu
- Gweithio gydag eraill

Trefniadaeth

- Gwneud penderfyniadau

Gweithgareddau dysgu

Gan ddefnyddio samplau sy'n cael eu darparu gan yr athro/athrawes o frandiau adnabyddus teganau, bwydydd, siopau ac ati, gofynnwch i'r disgyblion adnabod logos ac enwau am gynhyrchion/cwmnïau.

Mewn grwpiau, trafodwch beth, ym marn y disgyblion sy'n enwau da neu wael am gynhyrchion neu gwmnïau a pham maent yn eu hoffi/nad ydynt yn eu hoffi.

Anogwch y disgyblion i greu syniadau am enwau ar gyfer eu prosiect menter.

Gan weithio mewn grwpiau, mae'r disgyblion yn trafod yr enwau ac yn cytuno ar yr enw sydd orau ganddynt ac yna yn gweithio mewn grwpiau i gynllunio logo gydag enw eu cwmni.

Mae pob grŵp yn cyflwyno eu syniadau i'r dosbarth.

Gofynnwch i weddill y dosbarth bleidleisio ar yr enwau a ddewisir ac yna penderfynu'n derfynol ar enw a logo ar gyfer prosiect menter y dosbarth.

Gofynnwch farn dosbarthiadau eraill am enw'r cwmni a'r logo, gan wneud newidiadau wedi'u seilio ar yr adborth os bydd angen.

Gweithgaredd 6:

Beth fyddwn yn ein galw ein hunain?

Cynradd Is

Canlyniad Dysgu

Bydd y disgyblion yn creu amrediad o syniadau syml ac yn dechrau mynegi safbwyntiau.

Adnoddau sydd eu hangen

- Papurau Newydd
- Cylchgronau
- Pecynnu
- TGCh

Cwricwlwm ar gyfer Cymru

1. Meysydd Dysgu a Phrofiad

Celfyddydau Mynegiannol

- Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth ac yn defnyddio'r synhwyr, ysbrydoliaeth a dychmygu.

2. Sgiliau Trawsgwricwlaidd

Llythrennedd

Siarad

- Diben
- Ymddiddan cydweithredol
- Cwestiynu

Gwrando

- Gwrando ar gyfer ystyr
- Gwrando er mwyn deall
- Gwrando fel rhan o ymddiddan cydweithredol

Cymhwysedd Digidol

- Darganfod, chwilio a chynllunio cynnwys digidol
- Creu cynnwys digidol
- Gwerthuso, a gwella cynnwys digidol

